



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymateb

Diwygio Awdurdodau Tân ac Achub Cymru

Ymgynghoriad ar ddiwygio trefniadau llywodraethu a chyllido
Awdurdodau Tân ac Achub Cymru

Gorffennaf 2019

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg
This document is also available in English

CYNNWYS

Cyflwyniad	Tudalen 3
Y Ddadl dros Newid Cwestiynau 1-2 – Amcanion ar gyfer Diwygio Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad	Tudalen 4
Dylunio system newydd Cwestiynau 3-5 - Awdurdodau Tân ac Achub yn parhau i fod yn endidau ar wahân, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, buddiannau cenedlaethol v lleol Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad	Tudalen 6
Cynigion ar gyfer Newid - Llywodraethu ac Aelodaeth Cwestiynau 6-8 – Strwythur a niferoedd aelodau awdurdodau lleol ar Awdurdodau Tân ac Achub Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad Cwestiynau 9-10 – Aelodau Anweithredol Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad Cwestiynau 11-12 – Swyddogaeth Prif Swyddogion Tân ac unrhyw sylwadau eraill ar lywodraethu ac aelodaeth Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad	Tudalen 7
Cynigion ar gyfer Newid - Cyllid Cwestiynau 13-15 – Cytundeb cyllideb Awdurdodau Tân ac Achub ac awdurdodau lleol, praeseptau ac unrhyw sylwadau eraill Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad	Tudalen 11
Cynigion ar gyfer Newid – Rheoli Perfformiad Cwestiynau 16-18 – Cysylltiadau â Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub a hyblygrwydd o ran adrodd Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad	Tudalen 13
Cwestiynau Eraill yr Ymgynghoriad Cwestiynau 19-21 Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad	Tudalen 15

1. Cyflwyniad

1.1 Ar 12 Tachwedd 2018, fe wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar y pryd gyhoeddi Papur Gwyn ar ddiwygio trefniadau llywodraethu, cyllido a rheoli perfformiad ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru. Gwnaeth ddatganiad ynglŷn â hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yr un diwrnod.

1.2 Rhedodd yr ymgynghoriad tan 5 Chwefror 2019. At ei gilydd, daeth **60** o ymatebion i law erbyn y dyddiad cau, a chyflwynwyd ymateb arall yn hwyr. Daeth y **60** o ymatebion hynny oddi wrth y canlynol:

5 gan yr Awdurdodau Tân ac Achub (bob un o'r tri Awdurdod yng Nghymru, a dewisodd **2** ohonynt gyflwyno ymatebion ar wahân gan y "Gwasanaeth Tân ac Achub" hefyd);

5 gan sefydliadau eraill yn gysylltiedig â thân (sefydliadau cynrychioliadol, rheoleiddwyr ac undebau llafur yn cynrychioli staff Awdurdodau Tân ac Achub);

19 gan awdurdodau lleol (**18** gan gynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol, ac **1** gan gyngor tref);

3 gan gyrff cyhoeddus eraill;

14 gan wleidyddion unigol (Aelodau'r Cynulliad, Aelodau Seneddol a chynghorwyr) neu grwpiau pleidiau ohonynt; a

14 gan aelodau'r cyhoedd.

1.3 Mae'r atodiad i'r ddogfen hon yn cynnwys rhestr lawn o ymatebion. Mae'r ymatebion eu hunain – ac eithrio **1** nad oedd yr awdur eisiau iddo gael ei gyhoeddi – ar gael yn <https://llyw.cymru/diwygio-awdurdodau-tan-ac-achub-yng-nghymru> hefyd.

1.4 Mae hwn yn ymateb uwch ac ehangach o lawer nag y mae ymgynghoriadau ar bolisi tân yn ei ddenu fel arfer¹. Yn ogystal, roedd llawer o'r ymatebion yn faith, yn fanwl ac ystyriol, ac aethant ymhellach na'r materion a godwyd gan y Papur Gwyn. At ei gilydd, roedd y rhan fwyaf o ymatebion yn cefnogi'r ddadl fras dros newid, er nad oedd yr Awdurdodau Tân ac Achub eu hunain yn ei gefnogi, yn gyffredinol. Fodd bynnag, a gydag ychydig o eithriadau, roedd llai o gonsensws ynglŷn â'r cynigion manwl. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau'n ymroddedig i ddiwygio, ac mae'n ystyried ffurf hynny yng ngolau'r ymgynghoriad hwn. Yn y cyfamser, mae'r ddogfen hon yn rhoi dadansoddiad cryno o'r ymatebion a dderbyniwyd.

2. Y Ddadl dros Newid

¹ Yr ymateb uchaf nesaf yn y blynyddoedd diwethaf oedd ymgynghoriad 2017 ar ddyletswydd newydd i'r Gwasanaeth ymateb i lifogydd a digwyddiadau'n gysylltiedig â dŵr, a ddenodd 38 o ymatebion. Roedd hwnnw, serch hynny, yn ymgynghoriad byrrach o lawer yn cynnwys mwy o ffocws, a gasglodd ystod barnau llawer culach, bron pob un ohonynt yn gadarnhaol.

2.1 Disgrifiodd y Papur Gwyn y ddadl dros ddiwygio'r trefniadau llywodraethu a chyllido ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub, a chrynhodd y rheini i'r amcanion canlynol ar gyfer rhaglen ddiwygio:

- Gwarchod y safonau gwasanaeth uchel presennol a chaniatáu i'r Gwasanaeth Tân gynnal a gwella hynny i'r graddau mwyaf posibl.
- Creu arweinyddiaeth glir ac effeithiol o ran datblygu a darparu gwasanaethau tân ac achub, ac atebolrwydd ar gyfer hynny.
- Creu atebolrwydd allanol gwirioneddol ar gyfer penderfyniadau gwario a chyllidebu'r Awdurdodau Tân ac Achub, gan gydnabod yr agweddau penodol o ddarparu adnoddau ar gyfer y gwasanaethau brys.
- Ymgorffori swyddogaeth newidiol y gwasanaeth a darparu dulliau cyllido clir, teg a chynaliadwy ar ei gyfer.
- Gwella arbenigedd a gallu'r Awdurdodau Tân ac Achub i ddarparu arweinyddiaeth strategol, parhau i gydweithio'n effeithiol a dwyn uwchswyddogion i gyfrif.
- Aelodau'r Awdurdodau Tân ac Achub i fod yn llai niferus, ond bod ganddynt gylich gwaith cliriach a'r gallu i'w gyflawni.
- Cynnwys system rheoli perfformiad newydd a ddylai adlewyrchu'n well y sefyllfaoedd a'r heriau gweithredu penodol y mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yn eu hwynebu.
- Bod â chwmpas mor gyfyngedig â phosibl, ac osgoi unrhyw newidiadau i wasanaethau neu adnoddau rheng flaen.

2.2 Yna gofynnodd y Papur Gwyn y cwestiynau canlynol:

1. A ydych chi'n cytuno bod yr amcanion ar gyfer diwygio yn briodol ac yn bwysig?

2. A oes amcanion eraill y dylai'r cynllun diwygio roi sylw iddynt?

2.3 Rhoddodd **55** o ymgynghoreion ymatebion o sylwedd i **gwestiwn 1**. O'r rheini, cytunodd **27** fod yr amcanion yn briodol ac yn bwysig, heb gynnig unrhyw sylw pellach. Roedd y rheini'n cynnwys ymatebion o bob math o sefydliad a ymatebodd, ac eithrio'r Awdurdodau Tân ac Achub eu hunain. Mewn cyferbyniad, roedd **15** o ymgynghoreion yn anghytuno a'r amcanion heb gynnig unrhyw sylw pellach. Roedd y rhain, yn bennaf, yn cynnwys ymatebion gan Awdurdodau Tân ac Achub, rhai awdurdodau lleol a rhai gwleidyddion.

2.4 Dim ond ateb ie/na y rhoddodd y rhan fwyaf o ymgynghoreion i'r cwestiwn hwn. Fodd bynnag, cynigiwyd sylwadau pellach gan **13**. Awgrymodd y rhan fwyaf o'r rhain amcanion eraill y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi rhoi sylw iddynt hefyd, ac ymdriniwn â'r rheini o dan gwestiwn 2 isod. Fodd bynnag, fe wnaeth **4** ymgynghorai wrthwynebu rhai o'r amcanion yn benodol (ond, nid bob un ohonynt). Roedd **3** ymateb yn gwrthwynebu'r amcan ar ddiwygio aelodaeth Awdurdodau Tân ac Achub, tra bod ymateb arall yn gwrthwynebu'r amcan hwnnw a'r amcan yn ymwneud ag atebolrwydd ariannol.

2.5 Atebodd **29** o ymatebwyr gwestiwn 2 drwy awgrymu amcanion pellach y dylai'r rhaglen ddiwygio roi sylw iddynt (fel y nodwyd, fe wnaeth **9** ymateb arall i gwestiwn 1 wneud hynny hefyd i bob pwrpas). Eto, roedd y rhain yn rhychwantu'r holl fathau o sefydliadau a ymatebodd, ac eithrio'r Awdurdodau Tân ac Achub eu hunain. Mewn cyferbyniad, credai **14** o ymatebion, gan aelodau'r cyhoedd ac awdurdodau lleol gan mwyaf, fod yr amcanion yn ddigonol ac nad oedd angen helaethu arnynt, tra bod **4**, bob un ohonynt gan wleidyddion, yn dweud yn benodol nad oedd unrhyw amcanion yn briodol ac na ddylai'r diwygio fynd rhagddo. Ni wnaeth **13** o ymgylgoreion roi ateb o sylwedd i'r cwestiwn hwn.

2.6 Roedd yr amcanion pellach a gynigiwyd gan ymgylgoreion yn rhai eang iawn. Dywedodd **7** y dylai'r Papur Gwyn fod wedi bod yn fwy uchelgeisiol yn ei gynigion ar ddiwygio llywodraethu. Roedd awgrymiadau yma yn cynnwys un Gwasanaeth Tân i Gymru, ethol aelodau Awdurdodau Tân ac Achub yn uniongyrchol neu ailstrwythuro Awdurdodau Tân ac Achub i wneud iddynt gyd-ffinio â ffiniau'r heddlu (a fyddai'n golygu symud y ffin rhwng Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub De Cymru, a chreu Awdurdod Tân ac Achub ar wahân ar gyfer Gwent). Hefyd, galwodd ymatebwyr am ailstrwythuro rheolwyr o fewn Awdurdodau Tân ac Achub a hyfforddiant gwell ar gyfer yr aelodau, er na wnaethant ymhelaethu ar y pwyntiau hyn.

2.7 Dywedodd rhai eraill y dylai'r Papur Gwyn fod wedi cynnwys mwy am swyddogaeth y Gwasanaeth Tân. Un thema gyffredin yma oedd yr angen i'r swyddogaeth honno arallgyfeirio, i gefnogi'r GIG yn benodol, ac roedd **7** o ymatebwyr – awdurdodau lleol yn bennaf – yn cefnogi hyn. Ar y llaw arall, roedd **1** ymatebydd yn gwrthwynebu'r cyfryw arallgyfeirio a chredai y dylai'r Gwasanaeth gael ei leihau o ran maint. Credai ymatebydd arall y dylai diogelu cyllid a sicrhau safonau cytûn i'r gwasanaeth fod wedi bod yn flaenoriaeth.

2.8 Cafodd amcanion pellach ar gyfer gwella atebolrwydd eu cynnig hefyd. Roedd **5** awdurdod lleol a gwleidyddion yn eirioli rôl fwy ar gyfer craffu gan awdurdodau lleol, tra bod rhai eraill wedi awgrymu mwy o rôl i Lywodraeth Cymru, craffu mewnol gwell o fewn Awdurdodau Tân ac Achub, neu gynnwys dinasyddion yn fwy uniongyrchol.

2.9 Yn olaf, credai **5** awdurdod lleol y dylai'r Papur Gwyn fod wedi pwysleisio atebolrwydd ariannol ac effeithlonrwydd ariannol, tra bod **2** Awdurdod Tân ac Achub a'r Undeb y Brigadau Tân wedi galw am drafodaethau pellach ar gynigion y Papur Gwyn a'u gweithredu.

3. Dylunio system newydd

3. A ydych chi'n cytuno y dylai Awdurdodau Tân ac Achub barhau i fod yn endidau ar wahân a phenodol, gyda'r un ffiniau ag sydd ganddynt ar hyn o bryd?
4. A ydych chi'n cytuno na fyddai'n briodol trosglwyddo rheolaeth dros y gwasanaethau tân ac achub i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu neu awdurdodau lleol?
5. A ydych chi'n cytuno bod buddiannau cenedlaethol dilys ond cyfyngedig yn y Gwasanaeth y mae angen eu hadlewyrchu yn ei drefniadau llywodraethu?

3.1 Rhoddodd **54** o ymgynghoreion ymateb o sylwedd i gwestiwn 3. Roedd y farn yn llethol (**45** o ymgynghoreion) o blaid cadw tri Awdurdod Tân ac Achub gyda'r un ffiniau fel ag y maent. Roedd y **45** hynny yn cynrychioli pob math o ymatebydd, gan gynnwys yr Awdurdodau Tân ac Achub. Cynigiodd y **9** arall un awdurdod ar gyfer Cymru gyfan, neu ailfodelu'r Awdurdodau Tân ac Achub ar hyd ffiniau'r heddlu.

3.2 Roedd y consensws ar gwestiwn 4 yn gliriach fyth. O'r **55** o ymatebion o sylwedd, roedd **52** yn gwrthwynebu trosglwyddo'r Gwasanaeth i reolaeth Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, er bod gan **1** ohonynt farn gymysg ar y mater. Eto, daeth yr ymatebion hyn ar draws yr ystod lawn o ymgynghoreion. Dim ond **3** ymateb wnaeth gefnogi'r model hwn yn ddigamsyniol.

3.3 Roedd consensws clir hefyd ar gwestiwn 5. O **50** o ymatebion o sylwedd, dywedodd **40** mai buddiannau cenedlaethol cyfyngedig oedd yn y Gwasanaeth a dylid adlewyrchu hynny yn ei lywodraethu; dywedodd **6** arall bod y buddiannau hynny'n eang, nid yn gyfyngedig. Dim ond **4** ymateb wnaeth wrthwynebu'r cynnig hwn yn gyfan gwbl.

4. Cynigion ar gyfer Newid – Llywodraethu ac Aelodaeth

Cwestiynau i ymgynghori arnynt – llywodraethu ac aelodaeth:

6. A ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau lleol barhau i enwebu aelodau Awdurdodau Tân ac Achub?
7. A ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau lleol enwebu un aelod Awdurdod Tân ac Achub yr un, wedi eu dewis o blith eu haelodau cabinet?
8. A ydych chi'n credu bod angen gwneud unrhyw newidiadau i faint cabinet cyngor, a faint o dâl a roddir, pe bai eu haelodau hefyd yn gwasanaethu ar Awdurdodau Tân ac Achub?

4.1 Fe wnaeth **57** o ymgynghoreion roi ymatebion o sylwedd i gwestiwn 6. Roedd y farn yn llethol (**48** o ymgynghoreion) o blaid awdurdodau lleol yn parhau i enwebu aelodau Awdurdodau Tân ac Achub, gan gynnwys **17** awdurdod lleol a phob un o'r **3** Awdurdod Tân ac Achub. Ychwanegodd **13** o ymatebwyr nad oeddent yn credu bod angen unrhyw ddiwygio ar y trefniadau aelodaeth presennol, er nad oedd yr un o'r ymatebwyr hyn yn aelodau'r cyhoedd.

4.2 Nid oedd **9** o ymatebwyr yn cytuno, neu ni wnaethant gymhwyso'u hymateb. Gwnaeth **1** ymgynghorai sylwadau ar yr angen am aelodaeth o sefydliadau eraill y sector cyhoeddus fel byrddau iechyd; awgrymodd **1** yr angen am aelodaeth yn seiliedig ar wybodaeth nid gwleidyddiaeth ac awgrymodd **1** nad yw'r aelodaeth bresennol yn cynrychioli cymunedau.

4.3 O ran cwestiwn 7, dywedodd **38** o ymatebwyr nad oeddent yn credu y dylai awdurdodau lleol enwebu un aelod i'r Awdurdod Tân ac Achub o gabinetau awdurdod lleol. Y rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd oedd:

- **cododd 25** o ymatebwyr (gan gynnwys **13** awdurdod lleol) bryderon ynghylch capasiti aelodau cabinet;
- cyfeiriodd **18** o ymgynghoreion at golli cydbwysedd gwleidyddol ar Awdurdodau Tân ac Achub, a/neu golli cynrychiolaeth leol;
- dywedodd **17** o ymgynghoreion y byddai cynnig o'r fath yn arwain at golli aelodau profiadol a medrus (yn enwedig yn y swyddogaeth graffu);
- nododd **10** o ymatebwyr (bob un ohonynt naill ai yn awdurdodau lleol neu'n Awdurdodau Tân ac Achub) y byddai gostyngiad o'r fath mewn aelodaeth yn arwain at golli cynrychiolaeth awdurdod lleol ar sail poblogaeth neu lefel ardoll/cyfraniad ariannol gan arwain felly at hawliau pleidleisio anghytbwys/annheg.

4.4 Roedd **9** o ymgynghoreion yn pryderu y byddai aelodaeth lai yn yr Awdurdodau Tân ac Achub yn golygu colli gwydnwch sefydliadol. Cododd **5** faterion yn ymwneud â'r effaith bosibl ar amrywiaeth aelodau hefyd, a nododd **6** o ymatebwyr y potensial ar gyfer costau rhedeg uwch ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub.

4.5 Cytunodd **15** o ymgynghoreion y dylai awdurdodau lleol enwebu **1** aelod Cabinet i'w Hawdurdod Tân ac Achub, ac nid oedd barn arbennig gan **7**, neu roeddent yn dweud bod angen rhagor o wybodaeth cyn iddynt allu gwneud sylw.

4.6 Gofynnodd Cwestiwn 8 am farn ynglŷn â newidiadau i faint a thâl cabinetau cyngor os oedd eu haelodau yn gwasanaethu ar Awdurdodau Tân ac Achub hefyd. Nid oedd **38** o ymgynghoreion yn credu y dylid newid maint a thâl cabinet; roedd **10** o'r ymatebwyr hyn yn pryderu y byddai hyn yn cynyddu costau awdurdodau lleol. Awgrymodd **12** o ymgynghoreion y dylai fod newid ym maint a thâl cabinet (roedd **9** o'r ymatebwyr hyn yn aelodau o'r cyhoedd neu'n unigolion). Ni roddodd **11** unrhyw farn arbennig.

Cwestiynau i ymgynghori arnynt – llywodraethu ac aelodaeth:

9. A ydych chi'n cytuno y dylai Awdurdodau Tân ac Achub fod ag aelodau anweithredol hefyd?

10. Pwy ddylai benodi aelodau anweithredol Awdurdodau Tân ac Achub?

4.7 Roedd yr ymatebion i gwestiwn 9 yn fwy cytbwys. Cytunai **24** o ymgynghoreion (gan gynnwys **13** o aelodau'r cyhoedd) y dylai Awdurdodau Tân ac Achub fod ag aelodau anweithredol hefyd. Fodd bynnag, roedd **26** o ymgynghoreion (gan gynnwys **10** ACau, ASau neu gynghorwyr, **10** o awdurdodau lleol, a **2** o'r Awdurdodau Tân ac Achub) yn anghytuno. Dywedodd **12** o ymatebwyr fod yr arbenigedd y gallai aelodau anweithredol ei gynnig yn bodoli'n barod; dynododd **9** fod hwn yn cael ei ddarparu drwy aelodau a swyddogion presennol yr Awdurdodau Tân ac Achub; cyfeiriodd **6** o ymatebwyr hefyd at bwerau presennol Awdurdodau Tân ac Achub i gyd-ethol arbenigwyr.

4.8 Nid oedd **10** o ymatebwyr yn gwybod neu nid oedd ganddynt farn arbennig ar y mater hwn. Dynododd **9** o ymatebwyr a oedd naill ai'n anghytuno â phenodi aelodau anweithredol neu na chynigiodd farn ar hyn o bryd, mai'r rheswm am hyn oedd nad oedd digon o dystiolaeth wedi'i darparu, neu eu bod eisiau trafod y mater neu archwilio i'r mater ymhellach cyn llunio barn; roedd **6** o'r rhain yn ymatebwyr awdurdod lleol.

4.9 Nid oedd barn benodol gan **30** o ymatebwyr o ran pwy ddylai benodi aelodau anweithredol, er i **3** o'r rhain ddweud na ddylai Llywodraeth Cymru wneud. Cynigiodd **11** o ymgynghoreion yn benodol mai'r Awdurdodau Tân ac Achub eu hunain ddylai eu penodi, tra bod **7** wedi cynnig mai Llywodraeth Cymru ddylai wneud, ac awgrymodd **5** mai awdurdodau ddylai benodi aelodau anweithredol.

4.10 Roedd cynigion eraill yn cynnwys :-

- Awgrymodd **1** ymgynghorai benodiad ar y cyd gan yr Awdurdodau Tân ac Achub ac awdurdodau lleol ac awgrymodd **1** ymgynghorai benodiad ar y cyd gan yr Awdurdodau Tân ac Achub a Llywodraeth Cymru;
- Cynigiodd **1** ymatebydd etholiadau agored ar gyfer aelodau anweithredol;
- Cynigiodd **2** ymatebydd benodiadau naill ai gan Lywodraeth Cymru neu awdurdodau lleol, chynigiodd **2** ymatebydd benodiadau naill ai gan awdurdodau lleol neu Awdurdodau Tân ac Achub.

Cwestiynau i ymgynghori arnynt – llywodraethu ac aelodaeth:

11. A oes gennych unrhyw farn ar y cynnig tymor hwy, y dylai cyfrifoldeb am y gwasanaeth fod yn nwylo Prif Swyddog Tân statudol, gydag Awdurdodau Tân ac Achub yn craffu a goruchwyllo? Os felly, a fyddai hynny'n golygu bod angen gwneud unrhyw newid i drefniadau

4.11 Gofynnodd Cwestiwn 11 am farn ar y cynnig tymor hwy sef y dylai cyfrifoldeb am y gwasanaeth fod yn nwylo Prif Swyddog Tân statudol gydag Awdurdodau Tân ac Achub yn cadw swyddogaeth graffu a goruchwyllo. Rhoddodd **49** o ymgynghoreion ymateb o sylwedd i'r cwestiwn hwn. Roedd **21** o ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig; roedd **13** o'r rhain yn aelodau'r cyhoedd neu'n unigolion. Roedd **5** awdurdod lleol yn cytuno hefyd.

4.12 Nid oedd **28** o ymatebwyr y cytuno y dylid newid rôl Prif Swyddogion Tan. O'r rhain, cododd **10** bryderon yn ymwneud â diffyg atebolrwydd i'r etholwyr, a chododd **6** bryderon ynglŷn â rhoi cyfrifoldeb mor fawr yn nwylo un unigolyn. Cyfeiriodd **4** ymatebydd at y diffyg model cymharol a dywedodd **3** arall nad oedd digon o dystiolaeth a bod angen archwilio'r cynnig ymhellach cyn gallu llunio barnau gwybodus. Awgrymodd **2** ymatebydd y dylai Prif Swyddog Tân â chyfrifoldeb o'r fath gael ei benodi'n uniongyrchol.

4.13 Gofynnodd Cwestiwn 12 am farn ar gynigion eraill ar gyfer Diwygio Awdurdodau Tân ac Achub a oedd yn bodloni'r meini prawf a amlinellwyd ym Mhenodau 1 a 2 y Papur Gwyn. Ni ddarparwyd unrhyw gynigion ychwanegol gan **47** o ymatebwyr. Lle darparwyd cynigion gan ymgynghoreion, roedd y rhain yn perthyn i bedwar maes:

- **Strwythurau** - fe wnaeth **5** ymatebydd gynnig dulliau gweithredu amgen. O'r rhain, awgrymodd **2** ymatebydd y dylid cyflwyno comisiynwyr tân wedi'u hethol yn uniongyrchol; awgrymodd **1** ymatebydd hyn yng nghyd-destun un Awdurdod Tân ac Achub gyda Chomisiynydd wedi'i ethol yn uniongyrchol a Phwyllgor Gweithredol wedi'i benodi'n gyhoeddus (gyda'r potensial ar gyfer craffu ar sail ranbarthol gan gydbwyllgor craffu byrddau gwasanaethau cyhoeddus) ar ôl troed bwrdd iechyd. Awgrymodd **1** ymatebydd y dylai fod tri Awdurdod Tân ac Achub ond gydag un Gwasanaeth Tân ac Achub gydag un Pennaeth Gwasanaeth, a hybiau lleol yn gweithio oddi tanodd - dywedwyd y byddai hyn yn fwy cost-effeithiol, yn gwella arweinyddiaeth ar faterion cenedlaethol a rhyngwladol, wrth gadw atebolrwydd lleol; canolbwyntiodd **2** ymatebydd ar gydweithredu gwell gydag asiantaethau eraill, gydag **1** yn cyfeirio at y potensial ar gyfer uno swyddogaethau cefn swyddfa.
- **Aelodaeth Awdurdodau Tân ac Achub** - awgrymodd **3** o ymatebwyr aelodaeth o wasanaethau cyhoeddus heblaw am awdurdodau lleol, o fyrddau iechyd lleol, er enghraifft; awgrymodd **1** ymgynghorai cadeiryddion byrddau gwasanaethau cyhoeddus; roedd **4** o ymatebwyr yn canolbwyntio ar wella hyfforddiant ar gyfer aelodau, gan gynnwys meithrin cysylltiadau agosach gyda'r Academi Arweinyddiaeth.
- **Llywodraethu Mewnol** - cynigiodd **2** ymatebydd raniad mewnol cliriach rhwng swyddogaethau gweithredol a chraffu Awdurdodau Tân ac Achub, yn debyg i'r model

awdurdod lleol, neu fel arall, aelodaeth graidd lai yn yr Awdurdodau Tân ac Achub gydag awdurdodau lleol yn craffu.

- **Perthynas gydag awdurdodau lleol** – credai **3** ymatebydd y byddai craffu yn gwella pe bai'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub gyflwyno adroddiad blynyddol i awdurdodau lleol cyfansoddol; awgrymwyd briffiau ar y gyllideb flynyddol i'r holl gynghorwyr awdurdodau lleol gan **1** ymatebydd hefyd.

5. Cynigion ar gyfer Newid - Cyllid

13. A ydych chi'n cytuno y dylai Awdurdodau Tân ac Achub ac awdurdodau lleol gytuno ar faint o gyllid a gaiff Awdurdodau Tân ac Achub bob blwyddyn, gyda phŵer cymrodeddu wrth gefn ar gyfer Gweinidogion Cymru?

14: A ydych chi'n cytuno, yn y tymor hwy, y dylai Awdurdodau Tân ac Achub fod â'r pwerau i osod praesept y dreth gyngor, gyda gweddill eu cyllid yn dod ar ffurf grantiau gan Lywodraeth Cymru?

15: A oes gennych chi unrhyw gynigion eraill ynglŷn â sut i ddiwygio cyllid Awdurdodau Tân ac Achub sy'n bodloni'r meini prawf ym Mhenodau 1 a 2?

5.1 Ymatebodd **53** o ymgynghoreion i gwestiwn 13. O'r rhain, roedd **23** (aelodau'r cyhoedd ac awdurdodau lleol yn bennaf) yn gefnogol i lefel gyllid Awdurdodau Tân ac Achub yn cael ei chytuno gan yr Awdurdodau Tân ac Achub ac awdurdodau lleol bob blwyddyn, ac i Weinidogion Cymru fod â phŵer cymrodeddu wrth gefn ar gyfer datrys unrhyw anghydfodau ynghylch lefelau cyllido; roedd **17** o'r rheini'n cefnogi symud i braesept y dreth gyngor yn y tymor hwy, roedd **5** yn gwrthwynebu hynny ac awgrymodd **1** braesept ar wahân ar gyfer swyddogaeth uwch Awdurdodau Tân ac Achub yn cefnogi gwasanaethau cyhoeddus eraill. O'r **30** a oedd yn weddill, roedd **6** o blaid cynnal y status quo, heb gynnig unrhyw gynigion amgen. Roedd mwyafrif y **24** a oedd yn weddill naill ai o blaid cynnal y status quo hyd y gellid cyflwyno'r model praesept, neu cynigiont gynnig amgen ac ymdrinnir â'r rhain o dan gwestiwn 14.

5.2 Ymatebodd **54** o ymgynghoreion i gwestiwn 14. O'r rhain, roedd **41** yn cefnogi symud at fodel praesept y dreth gyngor. Dywedodd llawer o'r rhain y dylid symud at fodel praesept cyn gynted ag y bo modd, er i **2** arall awgrymu fod angen trafodaethau manwl pellach ar gymhlethdodau model o'r fath, ac roedd **6** yn credu ei bod yn bwysig ymgysylltu â'r cyhoedd cyn cyflwyno model praesept. Roedd yr ymatebion hynny yn bennaf gan awdurdodau lleol, gwleidyddion a'r Awdurdodau Tân ac Achub eu hunain, ond roeddent hefyd yn cynnwys rhai aelodau o'r cyhoedd. Credai **1** o'r ymgynghoreion, fodd bynnag, nad oedd yn cynnig gwelliant sylweddol i'r system ardollau bresennol. Awgrymodd **1** o'r ymgynghoreion braesept cenedlaethol ar gyfer un Awdurdod Tân ac Achub.

5.3 Pe na bai praesept yn mynd rhagddo, credai **1** ymatebydd y gallai'r cyswllt democrataidd gael ei gryfhau gan awdurdodau lleol a'u pwyllgorau craffu yn trafod cynlluniau a pherfformiad gwasanaethau tân ac achub. Dywedodd **3** ymatebydd na ddylai grantiau gan Lywodraeth Cymru gael eu cynnwys fel rhan o'r model praesept. Roedd **1** Awdurdod Tân ac Achub o'r farn y dylid cynnal y grantiau presennol gan Lywodraeth Cymru, ac y dylid darparu cyllid grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer unrhyw ddyletswyddau newydd a bennir i'r Awdurdodau Tân ac Achub. Roedd **1** ymatebydd, a ymatebodd yn gadarnhaol i gwestiwn 13, yn gwrthwynebu model praesept, gan ddweud y byddai'n rhoi mwy o dryloywder ond na fyddai'n rhoi mwy o atebolrwydd yn lleol, ac awgrymu y gallai datganiad yn nodi'r setliad cytûn gyflawni'r un peth. Roedd **1** awdurdod lleol a oedd o blaid model praesept yn dweud y dylid mynnu bod Awdurdodau Tân ac Achub

yn ymgynghori'n ffurfiol ag awdurdodau cyfansoddol a'r cyhoedd fel rhan o'r broses. Credai Swyddfa Archwilio Cymru y byddai symud o gylchoedd grant blynyddol a chyllid tymor byr yn cefnogi cynaliadwyedd a sicrwydd, ac yn lleihau'r amser diangen a dreulir ar reoli'r gyllideb.

5.4 Credai rhai eraill y byddai angen i unrhyw newid i fodel cyllido'r Awdurdodau Tân ac Achub ddiogelu gwasanaethau rheng flaen, ac ystyried gwaith ehangach yr Awdurdodau Tân ac Achub yn cefnogi gwasanaethau cyhoeddus eraill.

5.5 Awgrymodd **7** o ymgynghoreion gynigion cyllido amgen mewn ymateb i gwestiwn 15. Awgrymodd **6** Awdurdod Tân ac Achub, **5** awdurdod lleol, rhai gwleidyddion a CLILC fodel cyllido a oedd yn adlewyrchu rôl ddatblygol diffoddwyr tân yn cefnogi'r gwasanaeth iechyd a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Roedd cynigion pellach yn amrywiol iawn ac yn cynnwys dileu gwastraff, gwireddu arbedion effeithlonrwydd a chodi cyllid drwy hawliadau yswiriant wrth fod yn bresennol mewn gwrthdrawiadau traffig ffyrdd. Credai rhai eraill y dylai'r model cyllido mwyaf priodol fod yn un a oedd yn diogelu cynaliadwyedd Awdurdodau Tân ac Achub. Credai Undeb y Brigadau Tân y dylid rhoi blaenoriaeth i gynyddu buddsoddiad mewn Awdurdodau Tân ac Achub yn hytrach na newid y strwythurau llywodraethu.

6. Cynigion ar gyfer Newid - Rheoli Perfformiad

Cwestiynau i ymgynghori arnynt – rheoli perfformiad:

16. A ydych chi'n cytuno y dylai'r system rheoli perfformiad ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub fod yn seiliedig ar Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub?
17. A ydych chi'n cytuno bod angen system o'r fath i roi hyblygrwydd i Awdurdodau Tân ac Achub o ran cylchoedd cynllunio ac adrodd, ac o ran y ffynonellau gwybodaeth y maen nhw yn eu defnyddio ar gyfer perfformiad?
18. A ydych chi'n cytuno y dylai Gweinidogion Cymru gadw eu dyletswydd i adrodd i'r Cynulliad am sut y caiff y Fframwaith ei ddarparu, a'u pwerau i ymyrryd?

6.1 Mewn ymateb i gwestiwn 16, cytunai **44** o ymgynghoreion y dylai'r system rheoli perfformiad ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub fod yn seiliedig ar y Fframwaith Cenedlaethol. Roedd hyn yn cynnwys pob un o'r **3** Awdurdod Tân ac Achub, **14** o awdurdodau lleol, ac **13** aelod o'r cyhoedd. Teimlai **1** ymatebydd, fodd bynnag, y dylai trefniadau rheoli perfformiad fod yn seiliedig ar ddyletswyddau statudol Awdurdodau Tân ac Achub yn ogystal â'r Fframwaith Cenedlaethol. Teimlai'r un ymatebydd fod yr ymgynghoriad wedi colli cyfle i gydgyssylltu trefniadau rheoli perfformiad Awdurdodau Tân ac Achub gyda sefydliadau eraill y sector cyhoeddus, gan nodi larymau tân awtomatig fel enghraifft o ble'r effeithiwyd ar berfformiad Awdurdodau Tân ac Achub gan ymddygiad y sector iechyd a'r sector addysg.

6.2 Mynegodd **2** ymatebydd farn ynglŷn â dogfen y Fframwaith ei hun. Awgrymodd **1** ymatebydd na ddylai'r Fframwaith fod yn rhy gyfarwyddol, ac awgrymodd **1** arall fod diffyg nodau yn y Fframwaith presennol.

6.3 Ni wnaeth **15** o ymatebwyr gynnig barn benodol ar b'un a ddylid gwneud y cysylltiad cryfach hwn rhwng rheoli perfformiad Awdurdodau Tân ac Achub a'r Fframwaith Cenedlaethol.

6.4 Dim ond **1** ymatebydd oedd yn anghytuno â'r cynnig.

6.5 O ran cwestiwn 17, cytunai **47** o ymgynghoreion fod angen i unrhyw system rheoli perfformiad newydd roi hyblygrwydd i Awdurdodau Tân ac Achub o ran cylchoedd cynllunio ac adrodd ac o ran gwybodaeth am berfformiad. Fodd bynnag, gwnaeth **13** o'r rhain sylwadau ynglŷn â mesurau perfformiad. Dywedodd **5** o ymatebwyr ei bod yn bwysig bod gwybodaeth am berfformiad y gellir ei chymharu ar gael i alluogi Awdurdodau Tân ac Achub feincnodi'u perfformiad yn erbyn sefydliadau perthnasol eraill. Nododd **1** Awdurdod Tân ac Achub na fyddai hyn bob amser yn briodol efallai, o ystyried bod gofynion ac adnoddau gwahanol gan bob Awdurdod Tân ac Achub. Awgrymodd **3** ymatebydd yr angen am safonau cenedlaethol, gydag **1** o'r rhain yn cyfeirio at yr angen am gydweddoldeb ledled y DU. Cytunai **6** o ymatebwyr (awdurdodau lleol yn bennaf) y dylai mesurau perfformiad fod yn seiliedig ar ddeilliannau yn hytrach na phrosesau neu weithgarwch. Credai **3**

ymgyngorai y dylai mesurau ansoddol fod yn rhan o becyn mesurau perfformiad ehangach.

6.7 Cododd **12** o ymatebwyr faterion yn ymwneud â hyblygrwydd mewn perthynas â chylchoedd adrodd. Dynododd **7** o'r rhain, gan gynnwys **5** awdurdod lleol, yr angen am rywfaint o eglurder ynghylch trefniadau hyblyg ar gyfer trefniadau rheoli perfformiad yn gyffredinol, a therfynau amser adrodd yn fwy penodol. Nododd **4** o ymatebwyr yr angen am i gylchoedd adrodd fod yn gyson â gofynion adrodd mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chynlluniau statudol eraill. Nododd **1** ymatebydd y byddai mecanweithiau pennu cyllideb flynyddol a gofynion adrodd i'r cyhoedd yn ychwanegu rhywfaint o gyfyngiadau at ymagwedd adrodd hyblyg.

6.8 Nid oedd barnau penodol gan **7** o ymgynghoreion ar y mater, a dim ond **6** oedd yn anghytuno ag ymagwedd hyblyg at gylchoedd cynllunio ac adrodd.

6.9 Gofynnodd Cwestiwn 18 am farn ar Weinidogion Cymru yn cadw eu pwerau i ymyrryd a'u dyletswydd i adrodd i'r Cynulliad Cenedlaethol am sut y caiff y Fframwaith Cenedlaethol ei ddarparu. Cytunai **44** o ymgynghoreion y dylai'r pwerau a'r ddyletswydd hon gael eu cadw. Roedd hyn yn cynnwys **15** o aelodau'r cyhoedd, a **12** awdurdod lleol. Roedd **7** o ymatebwyr yn meddwl y dylai fod mecanwaith ar waith i Awdurdodau Tân ac Achub fwydo i mewn i'r broses adrodd hon, a bod swyddogaeth i'r Prif Gyngorydd Tân ac Achub i gefnogi'r ymagwedd fwy cydweithredol hon. Awgrymodd **1** ymatebydd hefyd y dylai unrhyw drefniadau adrodd o'r fath gynnwys nifer yr achosion o Weinidogion Cymru yn defnyddio pwerau diofyn i bennu cyllideb Awdurdod Tân ac Achub pe bai hyn yn cael ei weithredu (gweler Cwestiwn 13). Byddai hyn yn darparu eglurder ar effaith penderfyniad o'r fath, yn enwedig pe bai hyn yn golygu gostyngiad mewn cyllideb, neu allu Awdurdod Tân ac Achub i gyflawni Blaenoriaethau'r Fframwaith. Ni wnaeth **15** o ymgynghoreion fynegi barn benodol ar y cwestiwn hwn a dim ond **1** oedd heb fod yn cytuno y dylai Gweinidogion Cymru gadw'r ddyletswydd hon i'r Cynulliad Cenedlaethol.

7. Cwestiynau Eraill yr Ymgynghoriad

7.1 Roedd y ddogfen ymgynghori yn gofyn 3 chwestiwn arall, 2 ohonynt yn ymwneud ag effeithiau'r cynigion polisi ar y Gymraeg, ac 1 ohonynt yn rhoi'r cyfle i ymatebwyr godi unrhyw faterion eraill yn ymwneud â'r cynigion nad oeddent wedi'u codi yn rhywle arall yn y ddogfen.

19. Hoffem gael gwybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion polisi yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau fyddai'n dod i'r amlwg yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

20. Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut yr ydych chi'n credu y gallai cynigion y polisi gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

7.2 Ymatebodd **33** o ymgynghoreion i gwestiwn 19. O'r rhain, credai **19** o ymatebwyr na fyddai'r cynigion polisi yn cael unrhyw effaith ar ddefnyddio'r Gymraeg, yn gadarnhaol neu'n negyddol. Credai rhai eraill, na wnaethant ymateb yn uniongyrchol i'r cwestiwn, y byddai'r ddeddfwriaeth bresennol yn parhau o ran cynnal safonau'r Gymraeg sydd eisoes ar waith. Credai'r **3** Awdurdod Tân ac Achub ac **1** ymatebydd arall y byddai lleihau maint Awdurdod Tân ac Achub yn effeithio ar y gyfran o siaradwyr Cymraeg ynddynt.

7.3 Ymatebodd **21** o ymgynghoreion i gwestiwn 20. Roedd awgrymiadau i newid y cynigion polisi er mwyn cael effaith gadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg yn cynnwys cadw'r nifer aelodau presennol mewn Awdurdodau Tân ac Achub a'i wneud yn ofyniad i'r rheini sy'n eistedd ar gyffwrdd cyhoeddus fod yn siaradwyr Cymraeg.

21. Rydym ni wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol ynglŷn â llywodraethu, cyllid a rheoli perfformiad Awdurdodau Tân ac Achub. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym ni wedi rhoi sylw penodol iddynt, rhowch eich sylwadau amdanynt isod.

7.4 Ymatebodd **9** o ymgynghoreion i gwestiwn 21 yn cynnig sylwadau ategol ar gynigion y Papur Gwyn. Daeth yr ymatebion hyn o bob math o sefydliad a ymatebodd, gan gynnwys yr Awdurdodau Tân ac Achub eu hunain. Roedd **1** ymatebydd yn meddwl bod y berthynas rhwng aelodau'r Awdurdodau Tân ac Achub a'r Prif Swyddogion Tân yn rhy agos o lawer ac, fel y cyfryw, roedd diffyg her mewn penderfyniadau strategol. Credai **1** ymatebydd y gellid fod wedi ystyried synergedd posibl rhwng y gwasanaethau tân ac achub a'r gwasanaeth iechyd, ac

roedd **1** ymatebydd yn meddwl fod cyfuno swyddogaethau cefn swyddfa, fel cyllid, wedi bod yn deilwng o ystyriaeth.

7.5 Dywedodd **1** Awdurdod Tân ac Achub nad oedd Asesiad Effaith Integredig y cynigion polisi wedi archwilio'n llawn yr effaith y byddai'r cynigion yn ei chael ar yr Awdurdodau Tân ac Achub eu hunain. Credai y byddai lleihau nifer aelodau'r awdurdod yn gwanhau ei amrywiaeth, gan arwain at ymagwedd anghytwys mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a chraffu. Roedd yr un Awdurdod Tân ac Achub yn gwrthwynebu barn y Papur Gwyn yn gryf, sef bod trefniadau llywodraethu a chyllido presennol wedi atal gwaith yr Awdurdodau Tân ac Achub yn cefnogi'r GIG rhag datblygu, ac yn hytrach bod y rhwystr yn gysylltiedig â thâl. Credai'r Awdurdod Tân ac Achub hwn, ac un arall, y byddai unrhyw ostyngiad yng nghyllid Awdurdodau Tân ac Achub yn effeithio ar gynllunio cyllideb yn y tymor hwy a gwasanaethau rheng flaen. Credai **1** o'r rhain y gellid cynnal prawf mewn ymchwiliad cyhoeddus ar rai o'r cynigion a fyddai'n amrywio neu'n dirymu'r Gorchmynion Cyfansawdd.

7.6 Roedd **1** ymatebydd yn croesawu trafodaethau pellach gyda Llywodraeth Cymru ar swyddogaeth arfaethedig Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cryfhau ac yn gwella'r craffu a'r oruchwyliaeth bresennol o Awdurdodau Tân ac Achub. Roeddent yn credu hefyd y dylai ymagweddau amgen i swyddogaeth y Prif Swyddog Tân fod wedi cael eu hystyried, fel creu swydd Prif Weithredwr i sicrhau tîm arwain mwy amrywiol.